

## CYLCHLYTHYR

### Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg y Coleg 2016/17

Dyddiad: 28 Gorffennaf 2016

Cyfeirnod: 15/07

At: Penaethiaid sefydliadau addysg uwch Cymru, Grŵp Ymgynghorol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cydlynwyr Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg sefydliadol

Ymateb Erbyn: Dim angen ymateb

Cyswllt: Dr Gwennan Schiavone [g.schiavone@colegcymraeg.ac.uk](mailto:g.schiavone@colegcymraeg.ac.uk)

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**  
<http://www.colegcymraeg.ac.uk/cylchlythyron>

## **Cyflwyniad**

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn amlinellu datblygiadau yng ngweithrediad Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg y Coleg yn 2016/17.
2. Ers 2012/13, mae'r Coleg wedi cynnig cyfle i fyfyrwyr sy'n astudio mewn prifysgol yng Nghymru i ymgeisio am Dystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg ('y Dystysgrif'). Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Dystysgrif wedi ennill ei phlwyf, ac mae nifer yr ymgeiswyr wedi cynyddu'n flynyddol. Mae'r Coleg wedi datblygu strwythurau gweinyddu priodol er mwyn rheoli'r Dystysgrif a chynnal ei harholiadau, ac wedi cyllido tim o diwtoriaid iaith i ddarparu cefnogaeth i fyfyrwyr. Mae'r Coleg hefyd wedi datblygu casgliad o adnoddau dysgu cefnogol, ynghyd â sefydlu gwefan bwrpasol ar gyfer y Dystysgrif.
3. Yn dilyn trafodaethau, ac yn unol â phenderfyniad Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg, mae'r Coleg wedi dod i gytundeb cyfreithiol gyda CBAC a fydd yn golygu fod y cymhwyster wedi ei achredu'n ffurfiol yn 2016/17. Golyga hyn fod rhai newidiadau i'r dull o reoli a gweithredu'r Dystysgrif yn 2016/17, fel y manylir isod.

## **Gweithrediad y Dystysgrif Sgiliau Iaith yn 2016/17**

### **Achredu, asesu a phrosesau cofrestru**

4. Yn unol â'r cytundeb cyfreithiol rhwng y Coleg a CBAC, bydd CBAC yn achredu'r Dystysgrif Sgiliau Iaith, ac yn llwyr gyfrifol am brosesau arholi ac asesu'r Dystysgrif o 2016/17 ymlaen.
5. Yn unol â phrosesau arferol CBAC, bydd yn ofynnol i bob prifysgol a fydd yn cynnig y Dystysgrif, gael ei gymeradwyo fel 'canolfan arholi'. Bydd y broses gymeradwyo yn cael ei harwain gan CBAC a'i chynnal ar y cyd â swyddogion y Coleg. Cyfrifoldeb canghennau'r Coleg fydd hwyluso'r broses honno, drwy gydweithrediad â'r Coleg. Cynhelir y broses hon ym Medi-Hydref 2016.
6. Y Coleg fydd yn gyfrifol am y broses o gofrestru'r ymgeiswyr, a disgwylir i ganghennau'r Coleg annog cofrestrïadau o fewn eu sefydliadau yn unol â'r arfer. Bydd y cofrestrïadau'n cael eu casglu gan y Coleg yn ganolog (drwy wefan y Dystysgrif - [www.sgiliauiaith.colegcymraeg.ac.uk](http://www.sgiliauiaith.colegcymraeg.ac.uk)), a'r data'n cael ei drosglwyddo i CBAC at ddibenion cynllunio'r asesiadau.
7. CBAC fydd yn gyfrifol am bennu trefniadau asesiadau llafar ac ysgrifenedig y Dystysgrif. Pennir y dyddiadau drwy ymgynghoriad â swyddogion y Coleg a'r

canghennau. Disgwylir i'r canghennau gynorthwyo gyda'r trefniadau ymarferol o fewn eu sefydliad.

8. Bydd CBAC yn cynnal cyfarfodydd safoni marcwyr, ac yn gyfrifol am y broses gymedroli, a'r prosesau dyfarnu dilynol. CBAC fydd hefyd yn delio gydag unrhyw ymholiadau ynghylch y canlyniadau.
9. Ni fydd gan y Coleg na'i swyddogion unrhyw ymwneud uniongyrchol â'r prosesau asesu, arholi, cymedroli a dyfarnu o dan y trefniadau newydd.
10. Ar ddiwedd y broses ddyfarnu, pan fydd y canlyniadau wedi eu cadarnhau, bydd y Coleg yn derbyn y canlyniadau gan CBAC i'w dosbarthu i'r ymgeiswyr.
11. Bydd y sawl a fydd yn llwyddo yn yr arholiadau yn derbyn tystysgrif drwy'r post a/neu drwy ddigwyddiad a drefnir gan y Coleg i'w cyflwyno ym mis Awst 2017.
12. Yn unol â'r drefn bresennol, bydd y Coleg yn cyflwyno Gwobr Goffa Norah Isaac i'r myfyriwr israddedig a fydd yn derbyn y canlyniadau gorau yn asesiadau'r Dystysgrif.

### **Marchnata'r Dystysgrif**

13. Y Coleg fydd yn gyfrifol am drefniadau marchnata'r Dystysgrif yn genedlaethol, a disgwylir i ganghennau'r Coleg gynorthwyo'r Coleg i farchnata'r Dystysgrif o fewn eu sefydliadau a thu hwnt.
14. Bydd y Coleg yn parhau i gynnal gwefan ganolog ar gyfer y Dystysgrif, a fydd yn adnodd marchnata, yn ogystal â bod yn hafan i gartrefu gwybodaeth am y cymhwyster, ac adnoddau cefnogol i fyfyrwyr.
15. Bydd y Coleg yn cynhyrchu deunyddiau marchnata er mwyn hyrwyddo'r Dystysgrif i fyfyrwyr / darpar ymgeiswyr, ac i gyflogwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol.

### **Cefnogaeth ieithyddol i ymgeiswyr**

16. Bydd y Coleg yn parhau i glustnodi cyllid yn 2016/17 er mwyn sicrhau bod modd cynnig cefnogaeth ieithyddol i fyfyrwyr sy'n dymuno ymgeisio am y Dystysgrif. Bydd manylion y trefniadau hyn yn cael eu darparu i'r prifysgolion yn unigol drwy ohebiaeth uniongyrchol yng Ngorffennaf 2016. Yn unol â'r trefniadau sydd mewn lle ers 2012/13, bydd y Coleg yn darparu grantiau uniongyrchol i rai sefydliadau, tra bydd trefniadau mewn lle i fyfyrwyr mewn prifysgolion eraill dderbyn cefnogaeth gan diwtoriaid iaith canolog y Coleg.

17. Bydd rhaglen lawn o sesiynau gloywi iaith ar gael i fyfyrwyr ym mhob prifysgol. Nid yw'r sesiynau hyn orfodol, ond dylid annog ymgeiswyr i fynychu'r sesiynau a manteisio ar y gefnogaeth a ddarperir iddynt. Bydd gwybodaeth lawn am y sesiynau hyn yn cael ei ddarparu i ymgeiswyr gan ganghennau'r Coleg / drwy'r tiwtoriaid iaith.

### **Camau Nesaf**

18. Bydd y Coleg a CBAC yn galw cyfarfod ar y cyd gyda'r canghennau er mwyn cyflwyno gweithdrefn fanwl ac amserlen y flwyddyn. Bydd manylion y cyfarfod yn cael eu cadarnhau ar ddechrau mis Medi.